GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

15 Hydref 2010

Tîm Betsi – Rhedeg a beicio at ysbyty heb ddŵr

Bydd tîm o 17 rhedwr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhedeg hanner marathon Caerdydd ar 17 Hydref. Yn gosod her anhygoel iddyn nhw eu hunain, mae dau o'r rhedwyr, dau feddyg iau yn Ysbyty Glan Clwyd sydd yn y llun uchod, yn bwriadu beicio i lawr i Gaerdydd, cymryd rhan yn y ras, ac yna beicio'n ôl i fyny. I gyd mewn pryd i fod yn ôl ar ddyletswydd yr wythnos wedyn.

Mae'r rhedwyr – o'r enw Tîm Betsi – yn anelu at godi arian i adnewyddu cyflenwad dŵr a system garthffosiaeth ysbyty cyswllt Glan Clwyd yn Ethiopia, Ysbyty Hossana.

Meddai llefarydd, ar ran tua 20 aelod o Bwyllgor Cyswllt Ethiopia yn y Bwrdd Iechyd "Mae yna bwysau ariannol mawr yn y GIG ar hyn o bryd – ond mae staff Ysbyty Hossana yn wynebu tasg amhosibl bron o redeg ysbyty 200 gwely ar nesaf peth i ddim a heb ddŵr yn y wardiau neu'r theatr lawdriniaeth. Bu staff yn ardal Canolog BIPBC yn cefnogi Ysbyty Hossana mewn gwahanol ffyrdd ers 2005. Bwriad y prosiect cyfredol ydy codi arian ar gyfer adeiladu tŵr dŵr 40m^2 pedwar llawr efo pympiau a gwaith plymio, a hefyd i adnewyddu rhan fawr o bibellau carthffosiaeth yr ysbyty. Dyma'r prosiect mwyaf uchelgeisiol hyd yn hyn yn hanes y rhaglen gyswllt."

Gallwch gefnogi'r digwyddiad trwy ymweld â www.justgiving.com/ethiopialink (sy'n rhoi mwy o fanylion am y prosiect), neu drwy anfon rhoddion i Ethiopia Link d/o Swyddfa Gyffredinol, Ysbyty Glan Clwyd, LL18 5UJ. Ac os ydych chi'n digwydd pasio (neu'n cael eich pasio gan…) y ddau feiciwr uchod ar eu ffordd i lawr i Gaerdydd ddydd Sadwrn 16 Hydref, neu'n ôl i fyny'r diwrnod wedyn, gwaeddwch a chodwch eu calonnau!

DIWEDD

Am ragor o wybodaeth ffoniwch:

Mrs Dawn Davies **01745 534495**

Richard O'Brien and Craig Beaton from Glan Clwyd hospital

15 October 2009

Team Betsi - Running and cycling for a hospital without water

A team of 17 runners from Betsi Cadwaladr University Health Board will be entering the Cardiff half-marathon on October 17th. Setting themselves an extraordinary challenge, two of the runners, both junior doctors at Glan Clwyd hospital and pictured above, are planning to cycle down to Cardiff, take part in the run, and then cycle back up again. All in time to be back on duty for the following week.

The runners – calling themselves Team Betsi – aim to raise funds for restoration of the water supply and sewage system in Glan Clwyd's link hospital in Ethiopia, Hossana hospital.

A spokesman, speaking on behalf of around 20 members of the Ethiopia Link committee in the Health Board said "There are big financial pressures in the NHS at present – but the staff in Hossana hospital face the almost impossible task of running a 200 bed hospital on a shoe-string budget and without water on the wards or operating theatre. Staff in Central area of the BCUHB have been supporting Hossana hospital in various ways since 2005, and the current project is to raising funds for building a four storey 40m^2 water tower with pumps and plumbing, and also to replace a major part of the hospital sewage piping. This is the most ambitious project so far for the link programme."

You can support the event by visiting www.justgiving.com/ethiopialink (which provides more details of the project), or by sending donations to Ethiopia Link c/o General Office, Glan Clwyd Hospital, LL18 5UJ. And if you happen to pass (or be passed by…) the two cyclists above on their way down to Cardiff on Saturday 16th, or back up the following day, give them a big cheer!

ENDS

For further information please contact:

Mrs Dawn Davies **01745 534495**